



Côd Ymddygiad

Rhieni/Gofalwyr ac Ymwelwyr

Yn Ysgol Gymraeg Bro Ogwr rydym yn falch iawn ac yn ffodus i gael cymuned ysgol gefnogol. Yn ein hysgol mae'r staff, y llywodraethwyr, y rhieni a'r gofalwyr i gyd yn cydnabod bod addysg ein plant yn bartneriaeth rhyngom.

Fel partneriaeth, rydym i gyd yn ymwybodol o bwysigrwydd perthnasoedd gwaith da ac yn cydnabod pwysigrwydd y perthnasoedd hyn i arfogi ein plant gyda'r sgiliau angenrheidiol ar gyfer eu haddysg. Am y rhesymau hyn byddwn yn parhau i groesawu ac annog rhieni a gwarcheidwaid i gymryd rhan lawn ym mywyd ein hysgol.

Diben y cod ymddygiad hwn yw darparu'r disgwyliadau ynghylch ymddygiad o'r holl rieni, gofalwyr ac ymwelwyr sy'n gysylltiedig â'n hysgol.

Amcanion ein côd yw egluro'r mathau o ymddygiad na ellir eu goddef ac sy'n gofyn am gytundeb rhieni i'r disgwyliadau hyn.

Rydym yn disgwyl i gymuned ein hysgol barchu ethos ein hysgol drwy:

- Gosod esiampl dda yn eu lleferydd a'u hymddygiad eu hunain tuag at holl aelodau cymuned yr ysgol
- Cydweithio ag athrawon er budd plant. Mae hyn yn cynnwys cysylltu â'r ysgol i ddatrys unrhyw faterion sy'n peri pryder a thrafod ac egluro digwyddiadau penodol er mwyn sicrhau ateb cadarnhaol
- Atgyfnerthu polisi ymddygiad yr ysgol
- Parchu'r amgylchedd dysgu yn briodol (yn yr ysgol ac oddi ar y safle)
- Parcio ar y ffordd gan ystyried a pharchu eraill yn ystod y bore ac amseroedd gollwng a chasglu'r prynhawn.
- Peidio â pharcio ym maes parcio'r staff na'r bae bws.

Ni all yr ysgol oddef yr ymddygiad canlynol:

- Ymddygiad aflonyddgar sy'n ymyrryd neu'n bygwth ymyrryd ag unrhyw un o weithdrefnau neu weithgareddau arferol ar safle'r ysgol
- Unrhyw ymddygiad amhriodol ar safle'r ysgol.
- Defnyddio iaith uchel neu sarhaus neu arddangos tymer.
- Bygwth mewn unrhyw ffordd, aelod o staff, ymwelydd, cyd-riant/gofalwr neu blentyn.
- Difrodi neu ddinistrio eiddo'r ysgol.
- Anfon negeseuon e-bost neu negeseuon testun/neges llais/ffôn neu gyfathrebiadau ysgrifenedig eraill (gan gynnwys cyfryngau cymdeithasol) at unrhyw un o fewn cymuned yr ysgol.
- Sylwadau sarhaus neu ddifriol ynghylch yr ysgol neu unrhyw un o'r
- disgyblion/rhieni/staff/llywodraethwyr yn yr ysgol ar Facebook neu safleoedd eraill **'Meddyliwch cyn rydych chi'n ei bostio'**
- Defnyddio ymddygiad ymosodol corfforol, llafar neu ysgrifenedig tuag at oedolyn neu blentyn arall, gan gynnwys cosbi eich plentyn eich hun yn gorfforol ar safle'r ysgol.
- Mynd at blentyn rhywun arall er mwyn trafod digwyddiad neu ei geryddu oherwydd gweithred y plentyn yna tuag at eu plentyn nhw.
- Ysmygu, cymryd cyffuriau anghyfreithlon neu yfed alcohol ar safle'r ysgol.
- Cŵn yn cael eu cludo i safle'r ysgol (ac eithrio cŵn tywys)

Bydd yr ymddygiadau uchod yn cael eu hadrodd i'r awdurdodau priodol a mae yna bosibilrwydd bydd y Llywodraethwyr yn gwahardd unrhyw oedolyn sy'n troseddu rhag ddod ar y safle er mwyn diogelu ein cymuned ysgol

Mae'n bwysig i rieni a gofalwyr sicrhau bod unrhyw un sy'n casglu eu plant yn ymwybodol o'r cod ymddygiad hwn.

Yn ein hysgol rydym yn cymryd ein cyfrifoldebau diogelu o ddifrif a byddwn yn delio ag unrhyw ddigwyddiadau a gofnodwyd yn briodol.

Diolch am gadw at y côd hwn yn ein hysgol. Gyda'n gilydd rydym yn creu amgylchedd ysgogol nid yn unig i'r plant ond hefyd i bawb sy'n gweithio ac yn ymweld â'n hysgol.